

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Longyfarchiadau...

YSGOL GYNRADD TREORCI



**12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 9**

YSGOL GYNRADD TREORCI

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus iawn o chwaraeon yn 2024/25, trefnodd Ysgol Gynradd Treorci Noson Wobrwyo Chwaraeon i'w phobl ifainc gan wahodd rhai gwesteion arbennig iawn. Roedd Ebony Ham (Pêl-rwyd Cymru), Grace Davies (Pêl-droed Merched Dinas Caerdydd), Logan Lloyd (Rygbi Cymru dan 21), Lewis Lloyd (Rygbi'r Gweilch) a Matthew Pugh (Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd) yn bresennol yn y seremoni, gyda'r athletwyr ifainc yn ysbrydoli disgyblion yr ysgol.

Fe wnaeth yr ysgol hefyd dderbyn negeseuon fideo gan Cian Ashford (Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd) a'i chyn-ddisgybl Tomos Williams (Rygbi Caerloyw, Cymru a'r Llewod).

Roedd y seremoni yn achlysur gwych, a gafodd ei fwynhau gan bawb a oedd yn bresennol. Yn dilyn y llwyddiant, derbyniodd yr ysgol llif o geisiadau ar gyfer y rhaglen Llysgenhadon Ifainc nesaf. Mae'r ysgol yn gobeithio cynnal yr achlysur eto'r flwyddyn nesaf, i wobrwyo ac ysbrydoli ei phobl ifainc i chwarae a mwynhau chwaraeon.